

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cynhadledd Maes Llafur Cytûn

Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga – Cyfarfod o Bell, Dydd Mercher, 9fed Mawrth, 2022
at 10.30 am

YN

BRESENNOL:

CYNYRCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:

Cynghorwyr Sirol P. Pavia (Cadeirydd)
Cynghorwyr Sirol T. Thomas
Cynghorwyr Sirol L. Brown

CYNYRCHIOLWYR FFYDD:

Mrs B. Quinlan
Mrs S. Gooding
Mrs S. Cave

CYNYRCHIOLWYR ATHRAWON:

Mrs S. Hamer
Ms. C. Skinner
Mr. N. Jenkins

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Sharon Randall-Smith	Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Hayley Jones	Curriculum Partner (SACs and RVE)

APOLOGIES:

Councillors M. Powell

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Ystyried paratoi Maes Llafur Cytûn newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cynhadledd Maes Llafur Cytûn

**Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga – Cyfarfod o Bell, Dydd Mercher, 9fed Mawrth, 2022
at 10.30 am**

Agorodd y Cadeirydd y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn i wneud trefniadau ar gyfer paratoi maes llafur cytûn newydd.

Fe'n hatgoffwyd gan y Cadeirydd o'r cwestiynau allweddol:

Cwestiynau ar gyfer cynadleddau maes llafur cytûn a chynghorau cynghori sefydlog i'w hystyried:

- A yw argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol yn cael eu cynrychioli'n briodol?
- A fyddai'n ddefnyddiol nodi grwpiau ffydd a chred a gynrychiolir yn lleol yn y maes llafur cytûn?
- A fyddai'n briodol cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i ysgolion a lleoliadau am y grwpiau ffydd a chred hyn a sut i gysylltu â nhw?
- A fyddai'n ddefnyddiol cynnwys deunydd ac adnoddau enghreifftiol i gefnogi'r maes llafur cytûn lleol?
- Sut y gellir hwyluso cydweithio rhwng y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ac ysgolion a lleoliadau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod maes llafur cytûn priodol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer eich ardal?
- A oes unrhyw grwpiau neu sefydliadau eraill yng Nghymru a allai gefnogi'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn i ddatblygu'r maes llafur cytûn lleol ar gyfer eich ardal?
- Sut y bydd y maes llafur cytûn lleol yn cael ei hyrwyddo i ysgolion a lleoliadau a phartïon eraill â diddordeb yn eich ardal?
- Sut y bydd eich Cyngor Ymgynghorol Sefydlog lleol yn cefnogi ysgolion a lleoliadau gyda darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n ystyried y maes llafur cytûn lleol?
- Yn ogystal â'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg statudol ar gyfer dysgwyr o 3 i 16 oed, a oes angen unrhyw beth pellach ar ysgolion a lleoliadau yn eich ardal i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ffyrdd sy'n cefnogi egwyddor sybsidiaredd? Er enghraifft:
 - cyngor ar gysylltiadau â Meysydd eraill
 - awgrymiadau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ôl-16 dewisol
 - rhestr termau
 - cyngor ar ymgysylltu â materion sensitif yn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
 - arweiniad ar sut y gallai Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg beirniadol, gwrthrychol a lluosog edrych

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyflwyniad ar Gynhadledd Maes Llafur Cytûn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn nodi bod yn rhaid ei adolygu mewn 5 mlynedd ar ôl i'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd gael eu mabwysiadu. Mae darpariaeth y gellir ei hadolygu ar unrhyw adeg e.e. mewn 2 flynedd drwy Gynhadledd Maes Llafur cytûn arall.

Nodwyd bod yn rhaid i'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn roi sylw i'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nodwyd y bydd yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig yn darparu canllawiau ychwanegol i gyd-fynd â'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer hyfforddiant esgobaethol ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.

Tynnwyd ein sylw at rai gwallau yn y crynodeb deddfwriaethol. Gofynnir am gyngor pellach oddi wrth CCYSAGauC/Yr Adran Gyfreithiol/Llywodraeth Cymru fel y bo'n briodol.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cynhadledd Maes Llafur Cytûn

**Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga – Cyfarfod o Bell, Dydd Mercher, 9fed Mawrth, 2022
at 10.30 am**

Trafodwyd dileu'r hawl i dynnu'n ôl. Trafodwyd bod cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda gyda chyfathrebu da rhwng ymarferwyr a rhieni. Ystyriwyd bod sicrhau bod gwybodaeth a dysgu ar gael i rieni yn allweddol.

Ystyriwyd hefyd bod yn rhaid ystyried safbwynt y plentyn. Er enghraifft cysondeb wrth symud o un rhanbarth i'r llall.

Mae'n bwysig gwneud y maes llafur yn unigol i Sir Fynwy drwy gynnwys rhywfaint o wybodaeth ychwanegol (e.e. rhagair) yn hytrach na mabwysiadu'r canllawiau a ddarperir.

Nodwyd bod nifer o swyddi ffydd gwag ar gyfer Cynhadledd Maes Llafur CYSAG/Cytûn er gwaethaf yr ymdrechion gorau i recriwtio. Mae awdurdodau eraill mewn sefyllfa debyg ac wedi dosbarthu'r maes llafur drafft mor eang â phosibl ar gyfer ymgynghori.

Nodwyd bod rhai anghysondebau yn y geiriad e.e. yn y Teithiau dylid geirio'r term 'anghrefyddol' fel 'argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol'. Dylid cyfeirio at grefydd at Gristnogaeth a phrif grefyddau eraill.

Nodwyd y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei ddarparu'n bennaf gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr felly mae'n bwysig bod y maes llafur mor glir â phosibl gyda mynediad at hyfforddiant a chymorth.

Cynhelir gweithdai ar 28^{ain} Mawrth 2022. Bydd dogfen ddrafft ar gael fel sail ar gyfer trafodaeth. Gofynnwyd i'r materion cryno deddfwriaethol gael eu rhestru cyn yr 28^{ain} Mawrth i ychwanegu at y drafft i'w drafod fel y gellir ceisio cyngor. Cytunwyd y dylid gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer gweithdai'r 28^{ain} Mawrth 2022.

Cytunwyd y byddai'n gyfarfod ar-lein ar yr 28^{ain} Mawrth 2022.

Cymeradwywyd yr argymhellion yn yr adroddiad fel a ganlyn:

1. I Aelodau'r Gynhadledd Sefydlog nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran paratoi Maes Llafur cytûn newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn sgil canllawiau fframwaith diweddar Cwricwlwm i Gymru gan Lywodraeth Cymru.
2. Dylai Aelodau'r Gynhadledd Sefydlog ystyried y canllawiau hyn a chytuno ar y ffordd ymlaen o ran paratoi Maes Llafur Cytûn newydd i'w gymeradwyo mewn cyfarfod o'r Gynhadledd Sefydlog yn y dyfodol.

Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Pennaeth Cyflawniad a'r Gwasanaethau Estynedig am eu gwaith ar y maes llafur hyd yma.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cynhadledd Maes Llafur Cytûn

Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga – Cyfarfod o Bell, Dydd Mercher, 9fed Mawrth, 2022
at 10.30 am

4. Dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd yn y dyfodol

28^{ain} Mawrth 2022 – Gweithdai Maes Llafur Cytûn

26^{ain} Ebrill 2022 – Cynhadledd Maes Llafur Cytûn

Y cyfarfod diwedd yn 12.33 pm